Gweithgaredd Chwarae Rôl - Planhigfa Olew Palmwydd Gorllewin Affrica

Gwybodaeth i athrawon

Mae'r bobl, y wlad a'r cwmnïau yn y chwarae rôl hwn yn ffuglennol, ond i gyd yn seiliedig ar sefyllfaoedd bywyd go iawn.

Mae nifer o wledydd yn Affrica yn gobeithio dilyn olion troed yr hyn a elwir yn 'Asian Tigers' fel Malaysia ac Indonesia, sydd wedi gwneud biliynau ar filiynau o ddoleri trwy drosi lleiniau anferth o fforestydd glaw yn blanhigfeydd olew palmwydd. Mae'r ddwy wlad yn Ne Ddwyrain Asia yn cynhyrchu tua 85 y cant o olew palmwydd y byd.

Olew Palmwydd yw'r olew llysiau a ddefnyddir fwyaf yn y byd, ac mae'r galw'n cynyddu. Mae'n cyfrif am 65% o'r holl olew llysiau sy'n cael ei fasnachu'n rhyngwladol. Mae'n cael ei gludo i fwy na 70 o wledydd ar draws y byd, lle mae'n cael ei ddefnyddio mewn popeth o fiodanwyddau i fargarîn, bariau siocled, bisgedi, siampŵ a chanhwyllau.

Gellir cynaeafu Olew Palmwydd drwy gydol y flwyddyn, a dim ond ychydig o blaladdwyr a gwrteithiau sydd eu hangen arno. Mae coed Olew Palmwydd Coed yn gynhyrchiol iawn, ac yn cynhyrchu mwy o olew yr hectar nag unrhyw gnwd olew arall yn y byd. Mae hyn yn golygu mwy o olew am lai o dir.

Fodd bynnag, mae coedwigoedd glaw yn aml yn cael eu torri i lawr i blannu olew palmwydd, gan arwain at golli cynefinoedd i blanhigion ac anifeiliaid, ac i bobl sy'n byw yn y coedwigoedd glaw. Mae hefyd, wrth gwrs, yn cyfrannu at newid yn yr hinsawdd.

Er bod rhai pobl eisiau boicotio olew palmwydd yn gyfan gwbl, mae eraill yn dadlau nad dyma'r ateb, gan y byddai'n creu ei set ei hun o broblemau. Maent yn cefnogi safonau yn ymwneud â datgoedwigo y gall cwmnïau gofrestru ar eu cyfer, yn debyg i'r ffordd y mae Masnach Deg yn gweithio.

Yn 2013, cafodd 16% o olew palmwydd ei ardystio fel olew palmwydd cynaliadwy, sy'n golygu ei fod yn bodloni'r safonau datgoedwigo, cyfreithlondeb, tryloywder ac effaith gymdeithasol a osodir gan y Ford Gron ar Olew Palmwydd Cynaliadwy.

Rhagor o wybodaeth:

Tudalen we ryngweithiol gyda gwybodaeth hawdd ei darllen, graffiau rhyngweithiol a lluniau. Efallai y bydd eich disgyblion yn ystyried rhai o'r graffigwaith ar y dudalen hon yn ddiddorol.
www.theguardian.com/sustainable-business/ng-interactive/2014/nov/10/palm-oil-rainforest-cupboard-interactive

Say No To Palm Oil - Dechreuwyd gan fachgen tair ar ddeg oed pan ddaeth o hyd i wybodaeth a glywodd am olew palmwydd anghynaliadwy.
www.saynotopalmoil.com

Gwybodaeth WWF am Olew Palmwydd Cynaliadwy
http://wwf.panda.org/what_we_do/footprint/agriculture/palm_oil/solutions/roundtable_on_sustainable_palm_oil/

Mae WWF Awstralia yn cynnwys erthygl ddiddorol o'r enw 'boycotting is not the answer'
www.wwf.org.au/our_work/saving_the_natural_world/forests/palm_oil/what_wwf_is_doing/certified_sustainable_palm_oil/

Bwrdd Crwn ar Olew Palmwydd Cynaliadwy
www.rspo.org/about/how-we-work

Cyfarwyddiadau Chwarae Rôl

Rhannwch y dosbarth yn bum grŵp. Rhowch gerdyn rôl gwahanol i bob grŵp, a gofynnwch iddynt ddarllen yr wybodaeth am eu rôl.
(Efallai y byddwch eisiau rhoi amser iddynt i wneud mwy o waith ymchwil ar y pwynt hwn, a rhedeg y gweithgaredd chwarae rôl ar ddiwrnod arall. Fel arall, gallant ddefnyddio'r cardiau fel y maent)

Eglurwch fod pob grŵp yn cynrychioli person gwahanol, a allai fod o blaid neu yn erbyn cael planhigfa olew palmwydd yng Nghamerŵn. Maent yn mynd i drafod a ddylai olew palmwydd gael ei dyfu yn yr ardal ai peidio. Gofynnwch iddynt dreulio amser yn trafod beth sydd ar y cerdyn. Dylech eu hatgoffa eu bod yn mynd i gyflwyno'r safbwynt ar y cerdyn, nid safbwynt nhw eu hunain. Efallai y byddwch eisiau gofyn iddynt wneud nodiadau am beth y gallent ei ddweud.

Bydd angen i bob grŵp ddewis rhywun i siarad drostynt. Gofynnwch i bob grŵp yn ei dro i gyflwyno eu hachos. Gall disgyblion wneud nodiadau wrth i'r grwpiau eraill siarad. Pan fydd pob grŵp wedi siarad, rhowch amser i ddisgyblion drafod yr hyn y mae'r grwpiau eraill wedi ei ddweud, yna gofynnwch i bob grŵp ymateb.

Anogwch nhw i ddefnyddio iaith berswadiol, nid dim ond yr hyn sydd wedi'i ysgrifennu ar y cardiau.

Ar ddiwedd y drafodaeth, gofynnwch iddynt bleidleisio yn eu rôl ar a ydynt yn credu y dylai'r blanhigfa olew palmwydd fynd yn ei blaen.

Wedyn gallent bleidleisio ar sail eu barn eu hun a rhoi rhesymau pam.

Gweithgareddau Ychwanegol

Gofynnwch i ddisgyblion ysgrifennu am eu barn bersonol, gan nodi'r hyn a ddywedodd siaradwyr gwahanol yn ystod y drafodaeth.

Darganfyddwch am olew palmwydd cynaliadwy a chynlluniwch ymgyrch.
Gweler y gwefannau ar y dudalen flaenorol, a'r gweithgaredd gwneud penderfyniadau yn yr adnoddau hyn.

Ymchwiliwch i ffordd arall o ennill bywoliaeth ger coedwig law, a'i hamddiffyn ar yr un pryd.
www.sizeofwales.org.uk/projects/honey_bees.html

Llywodraeth mewn gwlad yng Ngorllewin Affrica

Rydych yn gweithio i'r llywodraeth yng Nghamerŵn. Mae Camerŵn yn wlad dlawd yng Nghanolbarth Affrica. Hyd oes cyfartalog y bobl yw 57, ac mewn **ardaloedd gwledig,** dim ond tua hanner y bobl sydd â mynediad i ddŵr yfed glân. Mae bron i 10% o bobl yn byw dan y **llinell dlodi ryngwladol.**

Mae olew palmwydd yn cael ei ddefnyddio ar draws y byd mewn cynhyrchion pob dydd fel hylif golchi llestri a siocled. Disgwylir i'r galw ddyblu erbyn 2030, a threblu erbyn 2050.

Rydych wedi clywed bod llawer o fusnesau olew palmwydd yn Asia yn gobeithio tyfu olew palmwydd mewn gwledydd Affricanaidd. Hoffech iddynt ddewis Camerŵn, oherwydd os ydynt yn gwneud hyn, bydd yn rhaid iddynt dalu trethi i'r llywodraeth.

Mae eich llywodraeth wedi penderfynu ehangu cynhyrchu olew palmwydd o fwy na 26% erbyn 2018. Rydych eisiau dod yn brif allforiwr olew palmwydd i wledydd eraill. Bydd hyn yn dod â llawer o arian i'ch gwlad, a byddwch yn gallu gwella bywydau eich pobl.

Meddyliwch am:

Beth rydych chi angen ei wneud i wella pethau i bobl yn eich gwlad

Sut i annog pobl i bleidleisio drosoch y tro nesaf y bydd etholiad.

Pam y gallai pobl fod yn erbyn y blanhigfa a beth allwch chi ei ddweud wrthynt.

Diffiniadau i'ch helpu chi

Gwledig	yn y cefn gwlad
Islaw'r llinell dlodi ryngwladol	pobl sy'n byw ar lai na US$1.25 y diwrnod

Pentrefwr lleol yng Ngorllewin Affrica

Rydych yn byw ym mhentref Ubi. Rydych chi a phentrefwyr eraill yn edrych ymlaen at y blanhigfa olew palmwydd. Does dim llawer o swyddi yn yr ardal hon, ac mae'n rhaid i bobl dyfu eu **cassava**, bananas, iam a choco eu hunain i'w bwyta.

Bydd y blanhigfa yn creu swyddi sy'n talu'n dda ac yn gwella amodau yn y pentref. Ni fydd yn agos at y pentref, ond bydd yn gwneud bywydau'r bobl sy'n byw yno yn llawer gwell. Bydd pobl yn gallu cael trydan a dŵr glân. Efallai y gallech chi gael set deledu. Mae eich gwraig yn hollol gyffrous am y syniad o gael **plymwaith yn y tŷ**, gan na fydd rhaid iddi hi a'ch merched gerdded i gasglu dŵr o hyn ymlaen.

Mae rhai pobl leol yn sôn am amddiffyn y goedwig, ond mae digon ohoni, a beth bynnag, mae'n bwysicach cael gwell ffordd o fyw.

Meddyliwch am …

Sut fydd bywydau teuluoedd yn y pentref yn newid er gwell.

Pam y gallai pobl fod yn erbyn y blanhigfa a beth allwch chi ei ddweud wrthynt.

Diffiniadau i'ch helpu chi

Cassava	planhigyn sy'n gyffredin mewn ardaloedd trofannol
Plymwaith yn y tŷ	tapiau yn y tŷ

Cwmni Rhyngwladol

Rydych chi'n gweithio i gwmni o'r enw Multipalm sy'n cynhyrchu olew palmwydd. Mae olew palmwydd yn fath o olew llysiau bwytadwy o ffrwyth y balmwydden, a dyfir ar y balmwydden olew Affricanaidd.

Mae olew palmwydd yn cynhyrchu mwy o olew yr hectar nag unrhyw gnwd olew arall yn y byd, felly gallwch wneud llawer o arian. Mae'n defnyddio llai o **wrteithwyr** a **phlaladdwyr** na llawer o gnydau olew eraill, fel ffa soia ac olew coconyt.

Mae eich cwmni yn awyddus i sefydlu **planhigfa olew palmwydd** yng Nghamerŵn. Mae llawer o fanteision i dyfu olew palmwydd yng Nghanolbarth Affrica. Mae'n tyfu'n dda mewn hinsawdd laith, ac mae prisiau tir a chyflogau yn isel, felly mae'n rhad i'w sefydlu. Mae llawer o dir yn addas ar gyfer y cnwd yng Nghamerŵn, felly gallai eich cwmni wneud llawer o arian. Mae'n eithaf agos i Ewrop, lle mae galw mawr am olew palmwydd.

Mae'r llywodraeth yng Nghamerŵn wedi dweud ei bod eisiau ehangu cynhyrchu olew palmwydd o fwy na 26% erbyn 2018. Mae hyn yn golygu na ddylech gael unrhyw drafferth yn sefydlu planhigfa newydd.

Meddyliwch am:

Sut allwch chi berswadio pobl y byddai planhigfa olew palmwydd yn syniad da.

Pam y gallai pobl fod yn erbyn y blanhigfa a beth allwch chi ei ddweud wrthynt.

Diffiniadau i'ch helpu chi

Gwrteithiwr	sylwedd naturiol neu gemegol sy'n cael ei daenu ar y tir i wneud i blanhigion dyfu'n well
Plaladdwr	cemegyn sy'n cael ei ddefnyddio i ladd plaleiddiaid, yn enwedig pryfed
Planhigfa olew palmwydd	fferm fawr sydd ond yn tyfu olew palmwydd

Gwirfoddolwr lleol

Rydych yn gwirfoddoli gyda grŵp o bentrefwyr o'r enw 'Club des Amis des Chimpanzes'. Mae hyn yn golygu 'Cyfeillion Clwb Tsimpansiaid' yn Ffrangeg. Sefydlwyd y clwb oherwydd bod rhai pobl yn chwilio am **brimatiaid** yn y goedwig ac yn eu lladd nhw er mwyn eu bwyta neu i werthu'r cig. Gelwir hyn yn gig anifeiliaid gwyllt. Rydych yn cerdded drwy'r goedwig yn cael gwared â thrapiau helwyr.

Rydych yn poeni, pe byddai **planhigfa olew palmwydd** yn cael ei phlannu yma, y byddai'r goedwig yn cael ei thorri i lawr a byddai cynefinoedd anifeiliaid yn cael eu colli am byth. Pan nad ydych yn y goedwig, rydych yn dangos lluniau a fideos i ymwelwyr o'r anifeiliaid a allai ddiflannu pe bai'r goedwig yn cael ei dinistrio.

Os bydd planhigfa olew palmwydd, bydd pobl sy'n barod i weithio am gyflogau isel yn dod o bob cwr o'r wlad, felly ni fydd pobl leol yn cael swyddi da. Bydd y bobl hyn angen bwyta, felly bydd mwy o hela am anifeiliaid yn y goedwig. Gallai rhai **primatiaid** ddiflannu'n llwyr.

Mae llawer o bentrefwyr yn dibynnu ar y goedwig ar gyfer bwyd a meddyginiaethau. Os bydd yr holl **fioamrywiaeth** yn diflannu, ni fydd dim ar ôl ar eu cyfer. Rydych eisiau perswadio pobl i amddiffyn y goedwig sydd ar ôl.

Meddyliwch am:

Beth fyddai'n digwydd pe byddai coedwig law yn cael ei dinistrio i blannu planhigfa olew palmwydd?

Beth allwch chi ei ddweud i berswadio pobl i amddiffyn y goedwig.

Diffiniadau i'ch helpu chi

Primatiaid	mamaliaid fel gorilaod, tsimpansïaid, bonobos a mwncïod
Planhigfa olew palmwydd	fferm fawr sydd ond yn tyfu olew palmwydd
Bioamrywiaeth	yr amrywiaeth o blanhigion ac anifeiliaid

Aelod Eco Glwb yng Nghymru

Rydych yn perthyn i'r Eco Glwb yn eich ysgol. Mae eich dosbarth wedi bod yn dysgu am goedwigoedd glaw a datgoedwigo. Mae gennych gyfle i siarad â phobl yng Nghamerŵn am yr hyn rydych wedi ei ddarganfod.

Mae gormod o garbon deuocsid (CO_2) yn yr **atmosffe**r yn achosi newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn golygu bod y ddaear yn cynhesu, gyda mwy o sychder, tywydd poeth, llifogydd a lefelau môr uwch. Mae hyn yn effeithio ar bobl ar draws y byd, ond yn fwy mewn gwledydd tlotach, lle byddai'n rhaid i bobl fynd ymhellach i chwilio am ddŵr efallai, neu byddai eu tai yn cael eu dinistrio gan stormydd.

Mae coed yn amsugno CO_2 ac yn ei storio. Maen nhw hefyd yn rhyddhau ocsigen. Ond pan mae coedwigoedd yn cael eu torri i lawr, nid yw'r coed yn amsugno CO_2 o gwbl wedyn – ac yn waeth na hynny, os ydynt yn cael eu llosgi i lawr, maent yn rhyddhau'r CO_2 wedi'i storio i'r atmosffer. Mae coedwigoedd glaw yn cael eu torri i lawr ar gyfer eu coed, ar gyfer cloddio, i ffermio gwartheg ac i blannu planhigfeydd olew palmwydd. Mae hyd at 20% o allyriadau nwyon tŷ gwydr o ganlyniad i ddatgoedwigo.

Rydych yn gwybod bod orangutanau wedi marw yn Indonesia a Malaysia oherwydd bod eu cartrefi wedi cael eu dinistrio. Ni fydd digon o fwyd i anifeiliaid mewn planhigfa olew palmwydd. Mae llawer o **brimatiaid** yn y coedwigoedd yng Nghamerŵn, ac rydych yn poeni y bydd y blanhigfa olew palmwydd yn eu rhoi mewn perygl hefyd.

Meddyliwch am:

Beth allai ddigwydd os bydd y goedwig yn cael ei thorri i lawr i blannu olew palmwydd?

Beth allwch chi ei ddweud i berswadio pobl i amddiffyn y coedwigoedd.

Diffiniadau i'ch helpu chi

Atmosffer	nwyon sy'n amgylchynu'r ddaear
Planhigfa olew palmwydd	fferm fawr sydd ond yn tyfu olew palmwydd
Primatiaid	mamaliaid fel gorilaod, tsimpansïaid, bonobos a mwncïod